Llythyr at ddysgwyr yng Nghymru

20 Ionawr 2021

Annwyl Ddysgwr

Trefniadau asesu ar gyfer graddau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2021

Fe wnaethom ysgrifennu atoch yn ddiweddar ynghylch newidiadau i'r trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Bellach, mae gennym ragor o wybodaeth i'w rhannu gyda chi am sut y bydd graddau'n cael eu penderfynu eleni.

Beth sy'n newid?
Os ydych chi'n sefyll cymwysterau TGAU, UG neu Safon Uwch yr haf hwn (2021), eich athrawon neu'ch darlithwyr fydd yn penderfynu ar eich gradd. Ni fydd asesiadau nac arholiadau allanol.

Sut bydd graddau TGAU, UG a Safon Uwch yn cael eu penderfynu?
Bydd eich graddau'n cael eu pennu gan eich ysgol neu goleg yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth asesu. Gallai hyn gynnwys asesiadau rydych wedi'u cwblhau yn ystod y cwrs, gan gynnwys gwaith cwrs. Bydd eich ysgol neu goleg yn penderfynu a ydyn nhw am ddefnyddio deunyddiau asesu wedi'u haddasu a fydd yn cael eu darparu gan CBAC i helpu i bennu eich gradd. Bydd eich ysgol neu goleg yn gallu ystyried faint o gynnwys cwrs rydych wedi'i drafod wrth benderfynu pa wybodaeth asesu i'w defnyddio.

Mae hyn fel na fyddwch yn cael eich asesu ar unrhyw beth nad ydych wedi'i drafod. Bydd CBAC yn cynghori'ch ysgol neu goleg ac yn gwneud yn siŵr bod y ffordd maen nhw'n bwriadu pennu'ch graddau yn addas. Er mwyn caniatáu cymaint o amser â phosibl i ragor o ddysgu ddigwydd, bydd eich graddau'n cael eu pennu gan eich ysgol neu goleg yn nhymor yr haf.

A fydd fy ngradd UG yn haf 2021 yn cyfrannu at fy Safon Uwch yn haf 2022?
Rydyn ni wedi ystyried a oes unrhyw ffordd deg y gall canlyniadau UG o'r haf hwn gyfrannu at Safon Uwch yn haf 2022, ond yn anffodus 'does dim. Y rheswm am hyn yw bod Safon Uwch fel arfer yn cael ei dyfarnu drwy roi marciau sy'n cael eu cyflawni ym mhob uned at ei gilydd (gan gynnwys unedau UG). Nid oes ffordd deg o ddefnyddio graddau UG o haf 2021 fel rhan o'r Safon Uwch yn 2022. Er hynny, os ydych chi'n sefyll cymhwyster UG yr haf hwn,

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

byddwch yn dal i dderbyn gradd UG wedi'i benderfynu gan eich athrawon neu ddarlithwyr. Byddwch yn gallu defnyddio'r radd hon yn eich cais UCAS i brifysgolion ac i symud ymlaen i'r Safon Uwch.

Beth fydd yn digwydd os ydw i'n fyfyriwr Blwyddyn 10?
Os ydych wedi cwblhau'r cwrs a'ch bod yn mynd i gael eich cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn eleni, yna gallwch gael gradd wedi ei phennu gan eich ysgol. Er hynny, ni fydd yn bosibl cymryd rhai unedau TGAU yn unig eleni, a bydd angen inni ystyried beth fydd y trefniadau asesu ar gyfer y pynciau hynny y flwyddyn nesaf.

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n mynychu ysgol neu goleg ac y byddwn wedi cofrestru fel 'ymgeisydd preifat'?
Byddwch yn dal i allu cwblhau asesiadau fel sy'n ofynnol gan ysgol neu goleg os ydynt yn fodlon eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster a phennu eich gradd yn seiliedig ar yr asesiadau hynny. Gallai'r deunyddiau asesu fydd yn cael eu darparu gan CBAC gael eu defnyddio ar gyfer hyn. Rydyn ni'n edrych ar wahanol drefniadau ar gyfer dysgwyr na allant wneud hyn, a bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn bo hir.

Beth sy'n digwydd os ydw i'n astudio ar gyfer cymhwyster galwedigaethol?
Nid yw cyhoeddiad heddiw yn cynnwys cymwysterau galwedigaethol. Rydyn ni'n gweithio gyda'r cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol i Gymru'n unig ar y ffordd ymlaen. Byddwn yn parhau i weithio gyda Lloegr a Gogledd Iwerddon i benderfynu ar y trefniadau ar gyfer cymwysterau a gynigir ledled y DU. Ar hyn o bryd mae Ofqual yn ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â'r cymwysterau sy'n cael eu cynnig ledled y DU tan 29 Ionawr.

A fyddaf yn gallu apelio fy nghanlyniad?
Os ydych am herio eich gradd, byddwch yn gallu apelio i'ch ysgol neu goleg. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad a'ch bod eisiau herio'r broses a ddefnyddiwyd gan eich ysgol neu goleg i bennu eich gradd, yna byddwch yn gallu apelio at CBAC.

Cymorth
Os ydych chi'n poeni am yr hyn y mae hyn yn ei olygu i chi, mae'n bwysig eich bod yn siarad â'ch athrawon, darlithwyr ac oedolion eraill sy'n eich cefnogi. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth cyn gynted ag y gallwn ar ein gwefan a bydd eich ysgolion a'ch colegau hefyd yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi cyn bo hir.

Os ydych chi'n teimlo'n bryderus neu'n isel ac eisiau siarad â rhywun am eich teimladau, mae rhai sefydliadau a all helpu. Gallech gysylltu â:

Meic Cymru - 080880 23456
Childline - 0800 1111

I gael rhagor o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn ystod y pandemig gallwch hefyd fynd i https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws

Byddwn yn darparu diweddariadau rheolaidd ar ein gwefan. Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, cysylltwch â ni drwy e-bostio cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Philip Blaker
Prif Weithredwr

Letter for learners in Wales

20 January 2021

Dear Learner

Assessment arrangements for GCSE, AS and A level grades in summer 2021

We wrote to you recently about changes to the assessment arrangements for GCSE, AS and A level qualifications. We now have more information to share with you about how grades will be decided this year.

What's changing?
If you are taking GCSE, AS or A Levels this summer (2021), your teachers or your lecturers will decide your grade. There will be no external assessment or exams.

How will GCSE, AS and A level grades be decided?
Your grades will be determined by your school or college based on a range of assessment information. This could include assessments you have completed during the course, including coursework. Your school or college will decide if they want to use adapted assessment materials provided by WJEC to help determine your grade. Your school or college will be able to consider how much course content you have covered when deciding what assessment information to use.

This is so you won't be assessed on anything you haven't covered. WJEC will advise your school or college and check that the way they intend to determine your grades is suitable. To allow as much time as possible for more learning to take place, your grades will be determined by your school or college in the summer term.

Will my AS grade in summer 2021 contribute to my A Level in summer 2022?
We've considered whether there is any fair way that AS results from this summer can contribute to A Levels in summer 2022, but unfortunately there is not. This is because A levels are usually awarded by putting marks achieved in all units together (including AS units). There isn't a fair way to use AS grades from the summer 2021 as part of the A Level in 2022. However, if you are taking AS levels this summer you will still be awarded an AS grade decided by your teachers or lecturers. You will be able to use this grade in your UCAS application to universities and to progress onto the A Level.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

What will happen if I'm a Year 10 student?
If you have completed the course and were going to be entered for the whole GCSE course this year, then you can be awarded a grade determined by your school. However, it will not be possible to take just some units of a GCSE this year, and we will need to consider what the assessments arrangements will be for those subjects next year.

What happens if I don't attend a school or college and would have entered as a 'private candidate'?
You will still be able to complete assessments as required by a school or college if they are willing to enter you for the qualification and determine your grade based on those assessments. The assessment materials provided by WJEC could be used for this. We are looking at alternative arrangements for learners who cannot do this, and more information will be available shortly.

What happens if I am studying for a vocational qualification?
Today's announcement does not include vocational qualifications. We are working with the awarding bodies offering Wales-only vocational qualifications on the way forward. We will continue to work with England and Northern Ireland to decide on the arrangements for qualifications offered across the UK. Ofqual are currently consulting on proposals about the qualifications offered across the UK until 29 January.

Will I be able to appeal my result?
If you want to challenge your grade, you will be able to appeal to your school or college. If you are not satisfied with the outcome and want to challenge the process used by your school or college to determine your grade, then you will be able to appeal to WJEC.

Support
If you're worried about what this means for you, it is important you speak with your teachers, lecturers and other adults that support you. We will publish more information as soon as we can on our website and your schools and colleges will also be able to give you more details soon.

If you're feeling worried or low and want to talk to someone about your feelings, there are some organisations that can help. You could get in touch with:

Meic Cymru - 080880 23456
Childline - 0800 1111

For more info, advice and support during the pandemic you can also go to www.childcomwales.org.uk/coronavirus/

We will be providing regular updates on our website. If you have any specific questions, contact us via email on communications@qualificationswales.org.

Yours sincerely

Philip Blaker
Chief Executive